



Croeso I Gylch Meithrin Y Gromlech

Ein nod yng Nghylch Meithrin Y Gromlech yw rhoi cyfle i bob plentyn 2.5 - 4oed yn ardal Dyffryn Ardudwy a Thalybont fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cefndir Y Cylch:

Agorwyd y Cylch yn wreiddiol ar ddiwedd y 1960eg, yn y Neuadd Bentref, a symudwyd i Gylch Meithrin Y Gromlech ar gampws yr Ysgol Gynradd yn 1997. Yr oedd yn gyfnod hir a chaled o gasglu arian i'w adeiladu gan bobl a phlant o'r gymuned.

Adnoddau'r Cylch/Y Safle a'r Offer:

Gall yr adeilad ddal hyd at 24 o blant i bob sesiwn.

Mae'r adeilad yn cynnwys ystafell chwarae fawr ir plant, cegin, toiledau bach ir plant ag toiled i blant a phobl ag anabledd. Rydym yn ffodus iawn o gael lle chwarae diogel gyda ffram ddringo hyd at blant 8 oed. Mae gan y Cylch amrywiaeth o offer pwrpasol o safon uchel i hyrwyddo dysgu trwy chwarae. Mae amgylchedd y Cylch yn gartrefol a chroesawgar ac wedi'i gynllunio i hybu datblygiad plant.

Staffio

Miss Lyn Bisseker yw Arweinydd ein Cylch Meithrin , mae gan Lyn gymhwyster NVQ lefel 3.

Miss Rachael Bull yn Is Arweinydd, mae gan Rachael gymhwyster NVQ lefel 2 ac yn gweithio at NVQ Lefel 3.

Miss Susan Foulkes a Mrs Meinir Thomas yn Cymhorthyddion. Mae Susan gyda gymhwyster NVQ lefel 3.

Y Pwyllgor

Mrs Gwenith Williams, Person Cofrestredig gwensh25@hotmail.co.uk / 01341 247 577.

Mrs Gwenfair Williams, Cadeirydd owengwen@hotmail.com / 01341 247 277.

Mrs Laura Mead, Ysgrifynyddes laurawild21@yahoo.co.uk / 01341 247 632.

Mrs Sian Williams, Trysorydd cylchmeithrinygromlech@hotmail.co.uk / 07810 376 362.

Oriau Agor

8:50yb-10:50yb a 8:50yb-12:50yp yw oriau agor y Cylch.

Ni ddyler gadael eich plentyn cyn 8:50yb (10 munud cyn i'r sesiwn ddechrau). Gofynnir yn garedig i chi eu nhol yn brydlon am 10:50yb a 12:50yp-os yr ydych yn rhedeg yn hwyr gofynwn yn garedig i chi gysylltu a'r Cylch ar **01341 242 554**. Os nad oes eglurhad wedi ein cyrraedd o fewn hanner awr wedi'r sesiwn orffen, yna mae lle i'r Arweinydd gysylltu a'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn Nolgellau am gyngor.

Os oes gan unrhyw un bryderon am ddatbygiad eich plentyn, neu yn anhapus gyda rhai agweddau o'r Cylch mae croeso i chi gysylltu ar pwyllgor.

Os yr ydych angen mynd a'r cwyn ymhellach yna mae croeso i chi gysylltu ar Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin ar **07792946042 Neu drwy gysylltu a AGGCC ar 03007 900 126.**

Pwy All Ddod i'r Cylch/Mynediad A Tal?

- Rydym yn derbyn plant dwy oed i bedair oed hyd y byddant yn mynd i'r ysgol.
- Mae croeso i blant o bob cefndir waeth beth fo'u lliw, iaith, hil neu anabledd.
- Rhoddir blaenoriaeth i blant fydd yn mynychu **Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy.**

Tal wythnosol sesiwn 9.00yb-1.00yp - 2.5 oed = £50 / 3 oed = £25

Tal wythnosol sesiwn 9:00yb-11:00yb - 2.5 oed = £20 / 3 oed = £10

Anghenion ychwanegol

Nod Cylch Meithrin Y Gromlech yw sicrhau bod cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn ei gymuned leol. Rydym yn cyd-weithio a'r Cynllun Cyfeirio, sy'n cyflogi Cysylltwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau cefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol yn y Cylch.

Beth fydd eich plentyn yn ei wneud yn y cylch?

- Chwarae a chymdeithasu a phlant eraill.
- Dysgu trwy chwarae tu mewn ac yn yr awyr agored.
- Chwarae a thywod, dwr, toes.ty bach twt , jig-sos, teganau, gemau bwrdd, beiciau, ayyb.
- Gweithgareddau creadigol.
- Gwrando ar storïau.
- Canu a dawnsio.
- Cael amser llaeth a ffrwyth.

Gofynnir i chwi baratoi'r ffrwyth adref a sicrhau bod enw ar y ffrwyth . Bydd y Cylch yn rhoi llaeth neu ddwr i'r plentyn yn ystod amser ffrwyth.

Polisiau a Gweithdrefnau'r Cylch Meithrin

- Mae gan y Cylch Meithrin nifer o bolisiau penodol ynglyn a threfn a gweithgareddau'r Cylch.
- Mae'r Cylch yn aelod o Mudiad Meithrin ac wedi'i yswirio trwy'r Mudiad.
- Adolygir y ddogfen hon yn flynyddol ar Fehefin y 3^{ydd} neu cyn agosed a phosibl ir dyddiad yma.
- Mae trefniadau mewn lle ar gyfer delio ac unrhyw argyfwng ee, staffio, adeilad, tan, casglu plant, ayyb.

laith

laith ein Cylch yw Cymraeg.

Cyfle Cyfartal

Ceisiwn sicrhau fod ein gweithgareddau yn rhoi cyfle cyfartal i bob unigolyn beth bynnag fo'i genedl, lliw, rhyw, anabledd, crefydd neu ddiwylliant.

Staffio

Mae trefniadau staffio'r Cylch yn cydymffurfio a gofynion Cofrestru Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r Cylch yn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch gan wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y cylch e.e: Amddiffyn rhag yr haul ac Asthma. Rydym hefyd yn trefnu ymweliadau blynnnyddol i archwilio offer trydanol i gyd.

Anghenion Ychwanegol

Rydym yn sicrhau fod y Cylch yn rhoi sylw priodol i bob plentyn gydag anghenion ychwanegol.

Amddiffyn Plant

Mae hapusrwydd, diogelwch a ffyniant pob plentyn yn holl bwysig inni yn y Cylch.

Bydd gweithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant Lleol yn cael eu dilyn mewn achosion o amheuaeth o gamdriniaeth.

Tynnu lluniau-bydd y Cylch yn gofyn am ganiatad ysgrifenedig gan rieni cyn tynnu llun o blant at unrhyw ddefnydd.

Trefn Gadael a Chasglu

- *Bydd y Cylch yn cadw cofnod manwl a llun o bob unigolyn fydd yn debygol o gasglu eich plentyn.*
- *Rhaid rhoi gwybod i'r Cylch ar unwaith os oes newid yn nhrefniadau casglu eich plentyn,neu os nad ydych yn gallu casglu eich plentyn yn brydlon am unrhyw reswm.*

Ymddygiad

Rydym yn gweithredu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad-ni ddefnyddir dull corfforol o gosbi plant o dan unrhyw amgylchiad. Nod y cylch yw darparu amgylchedd sy'n seiliedig ar ganllawiau clir, teg a chyson sy'n hyrwyddo dealltwriaeth plentyn o ymddygiad derbynniol. Os dangosir ymddygiad sy'n anerbynniol defnyddiwn y gadair dawel sef "Gwenith gwrando".

Trefn Canmol a Chwyno

Rydym yn croesawu eich sylwadau am ein gwasanaethau fel y gallwn eu gwella yn ol yr angen.

*Os ydych am gwyno am unrhyw agwedd o'n gwaith, dylech ddweud wrth Gadeirydd y cylch ar lafar i ddechrau , ac yna'n ffurfiol trwy ysgrifennu at bwyllgor rheoli'r Cylch. Os yr ydych angen mynd a'r cwyn ymhellach yna mae croeso i chi gysylltu ar Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin **ar 07792946042 neu drwy gysylltu a AGGCC ar 03007 900 126. AGGCC Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy. LL31 9RZ.***

Rhaglenni a gweithgareddau addysgol

Mae'r Cylch yn cynllunio a darparu ystod o weithgareddau a phrofiadau o fewn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed-sef y cwricwlwm newydd ar gyfer plant ifanc yng Nghymru.

Bydd eich plentyn yn dysgu trwy chwarae ac yn cael profiadau yn y meysydd canlynol sy'n rhan o'r Cyfnod Sylfaen:

- *Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.*
- *Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.*
- *Datblygiad mathemategol.*
- *Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.*
- *Datblygiad corfforol.*
- *Datblygiad creadigol.*

Cofnodion ac Adroddiadau

Mae cynnydd pob plentyn yn y Cylch yn cael ei gofnodi a bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i chi.

Sut Allwch Chi Helpu Yn Y Cylch?

Bydd cyfle i helpu gyda rhai gweithgareddau penodol yn y Cylch e.e. tripiâu.

Dewch a'r teulu i gyd i weithgareddau codi arian y Cylch-rydym yn croesawu cymorth gan rieni gyda threfniadau digwyddiadau cymdeithasol/codi arian.

Dewch i'r Cyfarfod Blynyddol a chynigiwch syniadau a chefnogaeth i weithgareddau'r Cylch.

Os bydd swydd yn wag ar y pwyllgor rheoli, gallwch sefyll i gael eich ethol yn un o'r Swyddogion e.e Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd. Y pwyllgor sy'n rheoli materion y Cylch Meithrin - felly cysylltwch a nhw os am drafod materion rheolaeth y Cylch.

Rydym yn meddwl bod cyswllt rhieni ar cylch yn holl bwysig, felly bob tymor rydym yn gyrru Cylch lythyr adref i egluro beth sydd wedi mynd yn mlaen a be fydd yn mynd ymlaen nesaf.

Am unrhyw wybodaeth pellach mae croeso i chi siarad ar arweinydd.

Gobeithio fydd eich plentyn yn hapus iawn yma gyda ni yn Cylch Meithrin Y Gromlech!